**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL**
**A GYNHALIWYD AR NOS IAU**
**20/09/2018 NEUADD PANTYFEDWEN AM 7.00PM**

1. **CROESO'R CADEIRYDD**
Croesawodd y Gyngh. Angharad Jones bawb i'r cyfarfod misol.
2. **YN BRESENNOL:** Y Gynghorwraig. Angharad Jones (Cadeirydd); Y Cynghorydd John Jones;
Y Gynghorwraig Laura Jones; Y Gynghorwraig Mair Jones; Y Cynghorydd Gareth Owen (Is-Gadeirydd);
Y Cynghorydd Doug Rowbotham; Y Cynghorydd Alun Price-Jones; Y Cynghorydd Sir Ifan Lloyd-Davies.
3. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
Ymddiheurodd y Cyngh. Clare Hughes, y Cyngh. Non Jones, y Cyngh. Wil Lewis a'r Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans am eu hanallu i fynychu'r Cyfarfod.
4. **MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU**
Dywedodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans, a oedd yn absennol o'r Cyfarfod y gallai aelodau drosglwyddo unrhyw gonsyrn at ei sylw.
5. **DATGAN DIDDORDEB:** Ni ddatgelwyd unrhyw ddiddordeb.
6. **CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD O'R 21ain O Fehefin 2018**
**CYNIGIWYD** (Y Gyngh. Mair Jones) **EILIWYD** (Y Gyngh. Laura Jones) a **PHENDERFYNWYD** yn unfrydol fod Cofnodion y Cyfarfod o'r 21ain o Fehefin 2018 yn gywir ac arwyddwyd fel rhai cywir gan y Cadeirydd y Gyngh. Angharad Jones.
7. **MATERION YN CODI**

**7.1 Cais am Bont i gerddwyr ym Mhontrhydfendigaid**
Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth gan Gyngor Sir Ceredigion, ers y cyfarfod safle o'r 9fed Chwefror 2018 rhwng Mr Igho Emeseh, CS Ceredigion a chynrychiolwyr y Cyngor Cymuned. Trafodwyd codi pont i gerddwyr ger y bont bresennol a rhyddhau tir at y diben hwn. ***Anfonwyd cais pellach am wybodaeth dan law'r Cyngor Sir. Dim Datblygiadau i'w hadrodd.***

**7.2 Cais i osod palmant ger y Lloches-Bws, Penrhiw, Ffair Rhos**
Gwnaeth y Gyngh. Clare Hughes gyfeirio Mr Igho Emeseh, i'r cais i osod palmant ger y Lloches Bws ardal Penrhiw, yn ystod y cyfarfod safle yn ymwneud â phrif bont y Pentref o'r 9fed Chwefror 2018. Cytunodd perchnogion Penrhiw i roi fel rhodd, rhan o dir at y diben hwn. *Disgwylir datblygiadau pellach.*

**7.3 Rheolau Sefydlog y Cyngor Cymuned:** Ystyriwyd y Rheolau Sefydlog mewn rhan. Parheir â'r drafodaeth yn ystod y cyfarfod nesaf.

**7.4 Ardal Chwarae Neuadd Pantyfedwen: Arolwg Rospa 2018**: wedi cymryd lle yn ystod Mehefin 2018. **Cytunwyd:** Y Cynghorydd Doug Rowbotham i glustnodi sylw pellach i'r ddogfen.

**7.5 Plac Jiwbilî Diemwnt Ei Mawrhydi Y Frenhines Elisabeth 11**: i arddangos plac gerllaw'r goeden Dderwen. Mae Mr Bennett yn ymwneud â'r dasg (dwy-ieithog*). Dim Datblygiadau i'w hadrodd yn ystod y cyfarfod hwn.*

**7.6** **Cŵn yn Baeddu:** Y mae'r Gyngh. Clare Hughes a'r Gyngh. Angharad Jones wedi clustnodi sylw i'r mater dan sylw, mewn lleoliadau penodol o fewn y pentref, gan ddefnyddio chwistrelli paent lliw melyn.

**7.7** **Y Fenter Ddi-blastig:** Sefydlir Grŵp Llywio yn y Pentref i gynnwys cynrychiolwyr o'r Cyngor Cymuned er mwyn tanysgrifio i'r Fenter Ddi-blastig; gellir o bosibl trefnu casgliad sbwriel ar lan yr afon.

**7.8** **Glanhau a Thrwsio'r Gofeb Rhyfel,** Ponthrydfendigaid: ystyriwyd y dyfynbrys i drwsio'r gofeb a'i ddwyn yn ôl i "safon arddangos" gan Kieran Elliott yn ystod y cyfarfod diwethaf. Adroddwyd nad oedd y Cyngor Cymuned yn gymwys ar gyfer y Grant Coffa Rhyfel. **PENDERFYNWYD: y Gyngh. Mair Jones i** gysylltu â James Memorials Cyf i ofyn am ddyfynbrys i lanhau'r ysgrif aur ac ati oddi ar yr arysgrifau wedi'u graffu ac i adnewyddu'r gofeb rhyfel gyfan cyn gwasanaeth Sul y Cofio o'r 11eg o Dachwedd 2018.

**7.9** **Gwasanaeth Sul y Cofio 11.11.2018 ger y Gofgolofn, Pontrhydfendigaid am 11am i nodi canmlwyddiant terfyn y Rhyfel Byd Cyntaf. PENDERFYNWYD:**

**7.9.1** **Y Cyngh. John Jones a'r Cyngh. Ifan Davies** i gyfarfod â'r Parch. Aled Lewis i drafod trefn y gwasanaeth; awgrymwyd bod pobl ifanc ysgol gynradd y Bont ac ysgol uwchradd Tregaron yn cymryd rôl arweiniol.

**7.9.2** **Y Cyngh.Gareth Owen i ofyn i Mr John Morgan,** Lledrod a fyddai'n barod i ymgymryd ârôl o Fwiglwr, unwaith eto, eleni.

**7.9.3** **Y Clerc i gysylltu â gwahanol fudiadau'r pentref** i ofyn tybed a hoffai cynrychiolydd o'u sefydliad osod torch. Cytunwyd i ofyn i'r canlynol: Clwb Pêl-droed y Bont; Sefydliad Y Merched y Bont; Merched y Wawr; Pwyllgor y Neuadd; Capel Carmel; Capel Rhydfendigaid; Mynachlog- Eglwys Dewi Sant; Clwb Pêl Rhwyd y Bont; Y Fynwent, Ystrad Fflur; Pwyllgor Y Sioe; Ysgol y Bont; Ysgol Feithrin; Clwb Cneifio y Bont; Pwyllgor y Pafiliwn; Pwyllgor Coed y Bont; Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur; Parc Angharad; Clwb Celf; Pwyllgor yr Henoed.

**7.9.4** **Y Clerc i ofyn i Bennaeth Ysgol y Bont** tybed a allai'r côr gyfrannu'n ystod y gwasanaeth.

**7.9.5** **Penderfynwyd peidio** â threfnu te ar ôl y digwyddiad.

**7.9.6** **Y Cyngh. John Jones** i archebu'r dorch ar ran y Cyngor Cymuned.

**7.10** **Gohebiaeth gan Mr Haydn Lewis,** Cyngor Sir Ceredigion, yn ystod y cyfarfod diwethaf, yn gofyn am ragor o wybodaeth am y llwybr cerdded cyhoeddus, a oedd yn arfer rhedeg trwy darn o dir a elwir yn Glan-yr-Afon. Cytunwyd bod Cynghorwyr yn ymweld â'r ardal dan sylw, yn ystod yr haf i geisio gwybodaeth bellach. *Dim Datblygiadau i'w Hadrodd.*

**7.11** **Adroddwyd yn ystod y cyfarfod cynt bod beiciau / cerbydau'n teithio** ar gyflymder gormodol drwy'r Pentref. Cytunwyd i brynu 2 arwydd yn datgan, "Gyrrwch yn ofalus drwy'r Pentref" (dwyieithog). *Trefniadau ar y gweill.*

**7.12** **Y Cynghorydd Clare Hughes** wedi ei holi gan rai pobl ifanc y pentref tybed a ellid defnyddio parsel o dir, o fewn y pentref at ddibenion beicio. Ar hyn o bryd, nid oes ardal o'r fath yn y pentref ac ystyriwyd bod y brif ffordd yn anniogel. Gallai'r tir hefyd fod yn addas fel man hamdden i blant. Trafodwyd y mater yng nghyfarfod arbennig y Cyngor Cymuned, sef Dydd Llun 25$^{fed}$ Mehefin 2018 am 8pm yn Neuadd Pantyfedwen.

**7.13** **Camfeydd: Llwybr cerdded sy'n arwain o'r Ysgol i Ffair Rhos:** Mae angen sylw ar 3 camfa, fel y codwyd gan Mrs N Jones yn ystod Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyngor Cymuned Ystrad Fflur. Adroddwyd at sylw Mr

Haydn Lewis, Cyngor Sir Ceredigion. Hefyd, atgoffwyd y Cyngor Sir o gais y llynedd sef, 4 camfa sy'n rhedeg drwy'r parc carafanau; Lôn dywyll X1 camfa; Tynrhos i Tanrhydiau X1 camfa.

**7.14** **Mainc wedi'i lleoli gyferbyn â 12/13** Maesydderwen angen ei drwsio. Soniodd gohebiaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Ceredigion nad oedd y fainc yn gyfrifoldeb arnynt. Adroddwyd mai'r Cyngor Cymuned oedd yn berchen ar y fainc. Derbyniwyd dyfynbris o £200 i greu a ffitio mainc bren gan fod y fainc bresennol mewn cyflwr gwael. Byddai cyflenwi a ffitio mainc blastig oddeutu £400. Penderfynwyd ceisio gwybodaeth pellach ar-lein (y Gyngh. Laura Jones)

## 8. GOHEBIAETH

**8.1** **Cyngor Sir Ceredigion (CSC): Crynodeb o'r gwrthwynebiadau:** Ynghylch atal rhagor o barcio ar Stryd y Bont a Chyffordd Heol yr Abaty. Penderfynwyd trefnu cyfarfod safle, rhwng dirprwyaeth o'r Cyngor Cymuned a Mr Tom Delph-Januirek CSC ar ddydd Llun 24fed Medi 2018 i drafod y mater ymhellach.

**8.2** **Llythyr: gwrthwynebiad i'r Gorchymyn:** Cyngor Sir Ceredigion (gwahardd a chyfyngu aros a llwytho a dadlwytho (unrhyw adeg) 2018 – CE58-F23 rhwng Talwrn/ Tŷ Ystrad a Chapel Rhydfendigaid ar ochr orllewinol; Stryd y Bont a Teifi View/Islwyn ar yr ochr ddwyreiniol, gan berchennog eiddo Stryd y Bont, Pontrhydfendigaid. Nid oedd gan yr eiddo dan sylw, a sawl eiddo yn yr un ardal, unrhyw gyfleuster parcio. Ceisiwyd lle parcio, heb lwyddiant ac fel canlyniad roedd cerbyd y person dan sylw wedi'i barcio ar y briffordd ... "Efallai y byddai o fudd i'r gymuned ehangach i gyfyngu parcio ar y rhan hon o Stryd y Bont ar sail y symudiad rhydd a thrwy hynny symudiad traffig cyflymach ond y mae'r parcio "cyfrifol" presennol ynghyd â'r cyfyngiadau lled ac ildio i draffig cyfagos yn gorfodi symudiad traffig arafach ac felly diogelach drwy'r rhan hon o'r pentref ... ers creu'r llwybr cerdded a'r cyfyngiadau lled ac ildio cyfagos, nid wyf wedi bod yn ymwybodol o broblemau sylweddol sy'n codi o barcio ar y lleoliad hwn. Anaml iawn y gwelir oedi yn y traffig sy'n teithio trwodd ac os felly, dim ond am ychydig funudau."
Gofynnodd tybed a fyddai'n ymarferol trefnu mannau parcio er budd yr eiddo hynny a fydd yn colli eu lle parcio o ganlyniad i'r cyfyngiadau arfaethedig. Cynigiodd gyflwyno darpariaeth parcio i breswylwyr o fewn yr ardal cyfyngedig a ddefnyddir ar hyn o bryd gan y rhai sydd heb fod â lle i barcio neu dod o hyd i ardal barcio pellach pan fyddai'r cyfyngiadau arfaethedig yn dod i rym. Bydd y sylwadau yn cael eu codi yng nghyfarfod safle'r 24.09.18.

**8.3** **Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) Cymru:** Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: "Trawsnewid ein Gwasanaeth Iechyd – Llais Cymunedau ar Iechyd a gofal" yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythos, rhwng Ebrill a Gorffennaf 2018 i ddyfodol gwasanaethau iechyd a gofal y GIG, mae adroddiad annibynnol wedi dod i law, yn manylu ar rychwant a chwmpas barn cymunedau yng nghanolbarth a Gorllewin Cymru. Derbynnir yr adroddiad yn ffurfiol gan y Bwrdd Iechyd mewn cyfarfod arbennig sydd i'w gynnal a'i weddarlledu o siambrau Cyngor Sir Caerfyrddin ar ddydd Mercher 26fed Medi 2018, ble trafodir model gwasanaeth y dyfodol. Roedd yna gefnogaeth i rai elfennau o'r ymgynghoriad, gan gynnwys yr achos dros newid, cryfhau modelau cymunedol, gwahanu gofal wedi'i gynllunio a gofal brys (ond roedd y mwyafrif yn awgrymu y dylid gwneud hyn ar yr un safle) a darparu ysbyty newydd yn ne Ardal Hywel Dda.
Bu cryn anghytundeb ynghylch lleoliadau'r canolfannau cymunedol a'r ysbytai arfaethedig, gydag awgrymiadau cyson y dylid ystyried canolfannau

yn Aberdaugleddau/ Neyland; Abergwaun/Wdig, Crymych, Llanbedr Pont Steffan a Llandysul a phryder yn gyffredinol am golli gwelyau cymunedol, yn enwedig mewn perthynas ag Ysbyty Dyffryn Aman.

Roedd yna lefel uchel o anghytuno dros y lleoliad arfaethedig ar gyfer ysbyty gofal brys ac argyfwng newydd. Roedd yr adborth yn amlygu dadleuon cystadleuol dros adeiladu'r ysbyty ger Caerfyrddin, oherwydd dwysedd poblogaeth, y dref ei hun ac oherwydd bod y lleoliad yn ganolog rhwng Hwlffordd a Llanelli; ac ymhellach i'r gorllewin o ystyried bod mynediad o'r lleoliadau hyn eisoes yn fater pwysig cydnabyddedig.

Mae themâu pryder allweddol wedi dod i'r amlwg, gan gynnwys teithio a mynediad at wasanaethau, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n fwy agored i niwed neu ynysig; seilwaith y ffyrdd a chyfyngiadau o ran trafnidiaeth gyhoeddus; gofynion o ran adnoddau gan gynnwys costau a staffio; effeithiau rhanbarthol, ee yr effaith ar fyrddau iechyd eraill ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, a'r gallu i ddarparu'r gofal cymunedol a sylfaenol sy'n ofynnol er mwyn i fodel o'r fath weithio, ymhlith eraill.

Mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn mynd trwy gyfnod o "ystyriaeth gydwybodol" lle bydd yn ystyried y farn a'r goblygiadau a ddaeth i'r amlwg yn yr ymgynghoriad ac yn asesu unrhyw opsiynau amgen a gyflwynir, cyn ailwerthuso a chynnig model o'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol.
Mae'r adroddiad llawn a'r crynodeb gweithredol ar gael ar adnodd gwefan ymgynghoriad y Bwrdd Iechyd wrth ddilyn y ddolen ganlynol www.HywelDdaHB.wales.nhs.uk/hddchange.

8.4 **Un Llais Cymru: Modiwl 15 -**Hyfforddiant ar reoli gwybodaeth Neuadd y Pentref, Howey, Powys, dydd Mawrth 25fed Medi 2018, 6.30pm-9.00pm.

8.5 **Newid gwybodaeth: o'r 1af Medi 2018,** y rhif ffôn newydd i gysylltu â Gofal Cymdeithasol mewn argyfwng y tu allan i oriau fydd 0300 4563554.

8.6 **Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru Cyfarfod Pwyllgor;** dydd Mercher 21ain Mehefin 2017 ac Agenda'r Cyfarfod Dydd Mercher 18fed Gorffennaf 2018.

8.7 **Post Brenhinol:** codi ymwybyddiaeth o bost sgam. Os bydd person yn amau bod rhywun yn derbyn post sgam dylid hysbysu'r Post Brenhinol drwy: ysgrifennu at y Post Brenhinol - Post Sgam Rhadbost, gan amgáu unrhyw eitemau yr amheuir eu bod yn llythyrau twyllodrus; Ffonio llinell gymorth post sgâm y Post Brenhinol ar 0800 0113 466; neu E- bostio scam.mail@royalmail.com.

8.8 **Mae Cyngor Sir Ceredigion** yn ceisio barn mewn perthynas â strategaeth iaith Ceredigion 2018-23. Er gwybodaeth.

8.9 **Gohebiaeth Eraill: er gwybodaeth yn unig.**

## 9. CYLLID

9.1 **Ysgoloriaeth y Dywysoges Sapieha dan ofalaeth Cyngor Cymuned Ystrad Fflur**: Gwobrwywyd yr ysgoloriaeth i Mari Herbert a Gwenno Humphreys yn ystod diwrnod gwobrwyo Ysgol y Bont a gynhaliwyd ar Ddydd Mercher 18fed Gorffennaf 2018, gan y Cadeirydd y Gyngh. Angharad Price Jones. (£10 yr un).

9.2 **Cyflog y Clerc**: 2 fis £155.07 x2.

9.3 **Cyllid a Thollau EM**: 2 fis £38.76 x2.

**9.4 Grant Gwyrdd – Cyngor Sir Ceredigion**
Cyflwynwyd yr anfonebau gerbron y Cyngor Sir.

**9.5 Mae Mrs Enid Hughes: wedi cynnal archwiliad mewnol Cyngor Cymuned Ystrad Fflur** yn ddiweddar ac wedi gwneud rhai awgrymiadau (am ffi o £100). Ffurflen Yr archwiliad allanol wedi'i postio at Gyfrifwyr Grant Thornton erbyn y 9fed Gorffennaf 2018.
£4,765.13 a gariwyd ymlaen ar ddechrau'r flwyddyn ariannol hon, 1.04.2018. (Atodiad 1)
**Cyfeiriodd Mrs Hughes at yr angen i adennill yr holl TAW; ymwneud â monitro ac archwiliad mewnol yn rheolaidd. Nodwyd y sylwadau.**

**9.6 Panel Annibynnol Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol:** Mae angen hysbysu'r Panel Annibynnol Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol am lwfansau a dderbyniwyd gan aelodau'r Cyngor Cymuned yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf a chyhoeddi'r wybodaeth ar Wefan Y Cyngor Cymuned. Hefyd, os na fydd yr Aelodau am dderbyn lwfansau, dylent hysbysu Swyddog Priodol y Cyngor (Mae'r Gyngh. Laura a Mair Jones wedi datgan nad ydynt am dderbyn y lwfans blynyddol o £150).

**9.7 Arolygiad chwarae ROSPA Mehefin 2018** £92.40 (gan gynnwys TAW)

**9.8 Estynnwyd gwahoddiad i'r Cadeirydd a'r Cynghorwyr** i fynychu Ffair flynyddol Neuadd Pantyfedwen. Penderfynwyd cyfrannu £150.

**9.9 Llythyr o ddiolch gan Gylch Meithrin Pontrhydfendigaid** parthed y rhodd o £50: defnyddir ar gyfer costau bob dydd.

## 10. CYNLLUNIO

**10.1 Cyngor Sir Ceredigion**: **Pwyllgor Rheoli Datblygu:** Agenda a Chofnodion cyfarfod diweddar.

**10.2 Ymgynghori ynghylch Safleoedd Posibl – Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLl) Ceredigion 2018-19.** Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru gytundeb cyflawni Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer paratoi cynllun newydd CDLl ar 22 Mehefin 2018. Mae'r cytundeb cyflawni yn nodi'r trefniadau ar gyfer paratoi'r CDLl newydd.

**10.3 Galw am aelodau newydd i'r fforwm mynediad lleol, Cyngor Sir Ceredigion**: Mae sicrhau mynediad i arfordir a chefn gwlad Ceredigion yn rhan hanfodol o'r prosiect twristiaeth wledig yng Ngheredigion ac mae'r rhwydwaith o hawliau tramwy cyhoeddus yn ased economaidd gwerthfawr sy'n helpu creu swyddi. Mae gan fynediad i gefn gwlad ran bwysig i'w chwarae mewn iechyd a lles. *i gysylltu â Eifion Jones CCC am ragor o fanylion.*

## 11. UNRHYW FATER ARALL

**11.1 Mae twll yn amlwg ger y banc poteli.**
Y Cyngh. Gareth Owen a Doug Robotham i neilltuo sylw i'r mater.

***Daeth y cyfarfod i ben am* 9.45pm.**

## 12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: Nos Iau 18fed o Hydref 2018 at 7pm.

= = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = =
(Llofnod/Dyddiad)